



Archwilio byd cadwraeth ystlumod trwy'r cwricwlwm cenedlaethol

Nodiadau i Athrawon

6. BETH SYDD EI ANGEN AR YSTLUMOD?/BYGYTHIADAU a HERIAU

Meysydd dysgu a phrofiad perthnasol:

Gwyddoniaeth a thechnoleg, iaith, llythrennedd a chyfathrebu, Dyniaethau - daearyddiaeth


Mae angen tair elfen allweddol ar ystlumod er mwyn goroesi: Bwyd, cysgod a chysylltiadau diogel rhyngddyn nhw.

1. Mae angen cyflenwad parod o fwyd ar ystlumod i gyflawni eu gofynion uchel o ran egni – Beth?

I ystlumod yn y Deyrnas Unedig, infertebratau – pryfed yn bennaf – yw'r unig ffynhonnell o fwyd. Oherwydd mai gwaed oer sydd gan infertebratau, mae'r tywydd yn effeithio ar eu presenoldeb, ac yn arbennig felly y tymheredd amgylcheddol a chyflymdra'r gwynt. Mae cylch bywyd infertebratau fel gwyfynod neu chwiwiaid yn golygu bod argaeledd oedolion yn newid ar hyd y flwyddyn, ac felly bydd diet ystlumod hefyd yn newid ar hyd y flwyddyn.

Gan gyfeirio at *Ystlumod Prydain*,

- dewiswch 2 rywogaeth wahanol o ystlumod a nodi eu hoff fwyd a ble maen nhw'n bwydo. Chwiliwch am gylch bywyd o leiaf 2 o'u hoff bryfed ym mhob achos.



Edrychwch ar y diagram yma o flwyddyn ystlum, gan gofio ei fod yn gyffredinol iawn oherwydd bod amrywiadau yn ôl rhywogaethau ac amodau amgylcheddol lleol.

Gan gyfeirio at *Ystlumod ar hyd y flwyddyn*, ar ba adegau mae ystlumod yn y sefyllfa fwyaf bregus?

- Ble a phryd mae'r ystlumod rydych chi wedi'u dewis yn fwyaf tebygol o gael hyd i'w hoff ysglyfaeth? Beth yw'r berthynas rhwng hynny a'r cylch blynyddol sydd yma? Pam?
- Cymharwch pa mor bregus yw sefyllfa ystlumod ifanc ac oedolion, a gwrywod a benywod o blith yr oedolion, gan drafod y rheswm am unrhyw amrywiadau.

Nodiadau i Athrawon **6. BETH SYDD EI ANGEN AR YSTLUMOD?/BYGYTHIADAU a HERIAU**

Edrychwch ar astudiaethau a gyhoeddwyd lle nodwyd parthau cynhaliaeth craidd ar gyfer gwahanol rywogaethau o ystlumod gan ddefnyddio tracio radio. Mae'r rhain yn ardaloedd hanfodol bwysig i'r ystlumod sy'n famau a'u rhai bychain sicrhau digon o fwyd i'r boblogaeth oroesi. Bydd maint y parth yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys gallu'r ystlum i hedfan yn bell mewn un noson.

2. Mae angen amrywiaeth o opsiynau clwydo ar ystlumod.

Dyw ystlumod ddim yn creu nythod – yn hytrach maen nhw'n llenwi bylchau fel toeon, tyllau mewn coed, neu graciau a chilfachau mewn amrywiaeth o strwythurau yn ein cartrefi, mewn ysguboriau a thai allan, ogofâu, coed, pontydd ac yn y blaen. Safleoedd clwydo yw'r mannau lle mae ystlumod yn gorffwys; gallan nhw gysgu neu gysgodi yno.

Cyfeiriwch at *Ystlumod ar hyd y flwyddyn* ac *Ystlumod Prydain*.

- Pam mae angen i ystlumod ddefnyddio gwahanol safleoedd clwydo ar wahanol adegau o'r flwyddyn? Sut mae hyn yn amrywio a) rhwng rhywogaethau a b) rhwng y ddwy ryw a gwahanol oeddrannau yn yr un rhywogaeth?

Pa amodau gwahanol bydd arnyn nhw eu hangen ar gyfer y canlynol:

- safleoedd clwydo ar gyfer mamolaeth lle mae'r ystlumod benyw yn rhoi genedigaeth i fabanod;
- safleoedd gaeafgysgu lle mae ystlumod yn cysgu dros y gaeaf;
- safleoedd clwydo i baru;
- safleoedd clwydo cyfamserol, sy'n cael eu defnyddio wrth i ystlumod symud rhwng safleoedd clwydo'r haf a safleoedd cysgu'r gaeaf;
- safleoedd bwydo nos, sy'n cael eu defnyddio'n bennaf yn ystod y nos.
- Ble gallai eich ystlumod 'chi' ddewis clwydo ar yr adegau gwahanol hyn? (Edrychwch ar *Ystlumod ar hyd y flwyddyn*, *Ystlumod Prydain* ac archwiliwch ddolenni eraill).

3. Mae ar ystlumod angen cysylltiadau da rhwng safleoedd clwydo a safleoedd fforio

Byddan nhw'n dilyn llwybrau hedfan sefydledig, gan ddefnyddio perthi, llinellau coed, afonydd ac ati i'w helpu i gael hyd i'w ffordd yng nghefn gwlad.

Bygythiadau a heriau

Ar hyd y canrifoedd, wrth i ystlumod esblygu ochr yn ochr â ni a dysgu defnyddio'r strwythurau rydyn ni'n eu hadeiladu, yn lleoedd i fyw ynddynt, rydyn ninnau wedi eu hamddifadu o lawer o'u safleoedd clwydo, a chael effaith niweidiol ar eu gallu i fwydo a symud o amgylch y tirlun. Digwyddodd y newidiadau hyn yn raddol, ond yn y diwedd mae cyflymdra a graddfa'r newidiadau wedi cynyddu cymaint nes bod poblogaethau o ystlumod, a bywyd gwyllt arall, wedi dirywio'n ddramatig.

- Lluniwch dabl sy'n dangos sut mae colli tri gofyniad sylfaenol yn bygwth ystlumod. Mae un enghraifft wedi'i chwblhau i chi. Faint rhagor gallwch chi feddwl amdanyn nhw?

<i>Colli safleoedd bwyd a fforio</i>	<i>Sut mae safleoedd clwydo'n cael eu colli</i>	<i>Torri neu rwystro llwybrau hedfan</i>
colli tir pori	gosod to newydd	clirio perthi

Trafodwch:

Mae angen i ni gynhyrchu bwyd, adeiladu tai a ffyrdd o hyd, yn ogystal â rhoi sylw i faterion pwysig fel y newid yn yr hinsawdd. Er bod y rhain yn fygythiadau i gadwraeth ystlumod, maen nhw hefyd yn heriau i gymdeithas, nid i bwyso'r naill yn erbyn y llall, ond i gael hyd i ffyrdd o gyflawni'r ddwy set o anghenion. (gweler *Pam mae angen ystlumod ar bobl*, a *Strategaethau Cadwraeth*).

- Trafodwch beth sydd ei angen arnon ni fel cymdeithas i ffynnu a chael bywyd llewyrchus, a chymharwch hynny ag ystlumod.
- Lluniwch fap cynefinoedd ar gyfer ardal un cilometr sgwâr rydych chi'n gyfarwydd â hi. Gallai gynnwys eich ysgol.
- Gan gyfeirio at y daflen ffeithiau *Ystlumod Prydain*, edrychwch ar fapiau lleol a'r ardal o amgylch i ragweld ble gallai gwahanol rywogaethau fwydo a chlwydo.
- Dewch o hyd i fapiau arolwg ordnans hanesyddol ac ailadrodd yr ymarferiad hwn. Beth sydd wedi newid a thros ba gyfnod o amser?
- Sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar ein bywyd gwyllt?
- Pa wasanaethau mae'r cynefinoedd hyn yn eu rhoi i ni, a sut gallwn ni osod gwerth arnyn nhw?
- Pa newidiadau mawr sydd wedi digwydd yn y tirlun yn ystod y blynyddoedd diwethaf?
- Gwiriwch gyda'ch cyngor lleol i weld pa gynlluniau sydd ganddyn nhw yn eu Cynllun Datblygu, er mwyn gweld ble mae newidiadau'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Sut mae diogelu bywyd gwyllt?
- Beth fyddai'n digwydd petai'r holl berthi'n cael eu clirio neu'r holl goetir yn cael ei dorri i lawr i wneud lle ar gyfer ffordd newydd? Beth petaen ni i gyd yn creu gwarchodfeydd natur newydd neu'n plannu coed?